# ATODLEN

Erthygl 2(3)

Hysbysiad cyn-ymgeisio ar gyfer cyfnod yr argyfwng

"ATODLEN 1D

Erthygl 2G

CYHOEDDUSRWYDD AC YMGYNGHORI CYN GWNEUD CAIS AM GANIATÂD CYNLLUNIO: HYSBYSIAD I'W ROI YN YSTOD CYFNOD YR ARGYFWNG

Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012

CYHOEDDUSRWYDD AC YMGYNGHORI CYN GWNEUD CAIS AM GANIATÂD CYNLLUNIO

HYSBYSIAD O DAN ERTHYGLAU 2C a 2D FEL Y'U HADDASWYD GAN ERTHYGL 2G

(i'w gyflwyno i berchnogion a/neu feddianwyr tir cyffiniol ac ymgyngoreion cymunedol; ac i'w arddangos drwy hysbysiad safle ar neu gerllaw lleoliad y datblygiad arfaethedig)

**Diben yr hysbysiad hwn:** mae'r hysbysiad hwn yn rhoi cyfle i wneud sylwadau yn uniongyrchol i'r datblygwr ynglŷn â datblygiad arfaethedig cyn cyflwyno cais am ganiatâd cynllunio i'r awdurdod cynllunio lleol ("ACLl"). Bydd unrhyw gais cynllunio dilynol yn cael ei hysbysebu gan yr ACLl perthnasol; ni fydd unrhyw sylwadau a ddarperir mewn ymateb i'r hysbysiad hwn yn lleihau dim ar eich gallu i gyflwyno sylwadau i'r ACLl ar unrhyw gais cynllunio cysylltiedig. Dylech nodi y gellir gosod unrhyw sylwadau a gyflwynir gennych yn y ffeil gyhoeddus.
Datblygiad arfaethedig yn (a) ………………………………………………………..

**Rwyf yn hysbysu bod** (b) ……………………………………………………………..

yn bwriadu gwneud cais am ganiatâd cynllunio i (c): ………………………….

Gallwch weld copïau o'r canlynol:

- y cais arfaethedig;
- y planiau; a
- dogfennau ategol eraill

ar-lein yn (d) ……………………………………………………………………….

Os nad ydych yn gallu cael mynediad at y dogfennau yn electronig gallwch ofyn am gopïau o'r wybodaeth hon drwy anfon e-bost at (e)…………………………… neu drwy ffonio'r ceisydd ar (f)…………………………

Rhaid i unrhyw un sy'n dymuno gwneud sylwadau ynglŷn â'r datblygiad arfaethedig hwn ysgrifennu at y ceisydd/yr asiant yn (e) ………………………………… neu (g) …………………………………
erbyn (h) ……………………………………………

Llofnod: ………………………………………….

Dyddiad: ……………………………………

Mewnosoder:

a) cyfeiriad neu leoliad y datblygiad arfaethedig
b) enw'r ceisydd
c) disgrifiad o'r datblygiad arfaethedig
d) cyfeiriad y wefan
e) cyfeiriad e-bost y ceisydd/yr asiant
f) rhif ffôn y ceisydd/yr asiant
g) cyfeiriad y ceisydd
h) dyddiad gan ganiatáu cyfnod o 28 o ddiwrnodau, gan ddechrau gyda'r dyddiad cyflwyno a chyhoeddi